

Parallel.cymru



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

Cot Ruby

Tasgau grŵp Pennod Un


1. Trafodwch:

- Pa fath o berson dych chi'n meddwl yw Tommy?
- Pam dych chi'n meddwl bod Rhian wedi cymryd at Gwynfor gymaint?
- Oes rhywbeth gyda chi hoffech chi gadw am byth?
- Beth dych chi'n meddwl fydd yn digwydd ym mywyd Rhian ar ôl y stori?

2. Ystyr brawddegau

Newidiwch ystyr y brawddegau hyn trwy newid **un** gair yn unig. Ydych chi'n gallu creu brawddegau doniol tybed?

- Ar y cyfan, dw i'n mwynhau fy ngwaith.
- Roedd Tommy'n meddwl 'mod i'n caru ar y slei.
- Allet ti berswadio fe i roi dy enw di yn ei ewyllys?
- Wnes i chwerthin heb ddeall pam yn iawn.
- Ambell waith, esgus yw'r unig beth sy'n cadw person i fynd.
- Wnes i wisgo cot Ruby i'r angladd.



Parallel.cymru



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

Tasgau i unigolion Pennod Un

1. Geirfa

Cysylltwch y geiriau Cymraeg â'r geiriau Saesneg cywir:

atseinio	<i>to refuse</i>
eiddo	<i>teardrop</i>
llwch	<i>despite that</i>
gwrthod	<i>to pretend</i>
bachu	<i>to aim</i>
chwant bwyd	<i>perhaps</i>
er hynny	<i>daft</i>
cyfoeth	<i>property</i>
esgus	<i>to hook</i>
deigrryn	<i>riches</i>
gwirion bost	<i>glass</i>
hudolus	<i>appetite</i>
efallai	<i>magical</i>
gwydr	<i>to reverberate</i>
anelu	<i>dust</i>



Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

2. Gosodiadau

Nodwch os yw'r gosodiadau hyn yn gywir, yn anghywir neu fod y wybodaeth ddim ar gael:

		Cywir	Anghywir	Ddim ar gael
a	Tommy yw gŵr Rhian.			
b	Mae Donna yn croesawu Rhian i'r siop.			
c	Dyw Rhain ddim yn gallu fforddio prynu'r got yn ôl.			
ch	Mae Gwynfor yn galaru am ei wraig.			
d	Mae Tommy wedi curo menywod o'r blaen.			
dd	Mae Tommy yn credu bod Gwynfor yn gyfoethog.			
e	Mae dealltwriaeth yn tyfu rhwng Gwynfor a Rhian.			
f	Mae rhieni Rhian wedi marw.			
ff	Mae Rhian yn penderfynu byw gyda Gwynfor.			
g	Mae Gwynfor yn lladd ei hun.			